PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 18 Mai 1, 2025 50c.

## CARIO'R GROES I BEN Y BRYN





Ers blynyddoedd bellach bu'n draddodiad ar bnawn Gwener y Groglith i gario'r groes i fyny i safle'r hen fryngaer ar Fryn Myrddin, sy'n codi uwchlaw pentrefi Felin-wen ac Abergwili, ar gyrion tre Caerfyrddin. Er gwaetha'r tywydd garw, mentrodd criw o bererinion dewr i fyny'r llethrau serth unwaith eto eleni. Cynhaliwyd oedfa fer ar ben y bryn o dan arweiniad y Parchg Beti Wyn James, cyn dychwelyd i fferm Allt Fyrddin am baned a chyfle i barhau'r addoliad.

## DATHLU SUL Y BLODAU YN HOPE-SILOH, PONTARDDULAIS




Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn ar ddydd Sul y Blodau fel dechreuad i ddathliadau yr Wythnos Fawr yng nghapel Hope-Siloh. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Marie-Lynne Jones a phlant y capel wedi'u paratoi gan Meinir a Luned Jones. Cyflwynwyd neges y Pasg ar ffurf llys barn, gyda chynrychiolydd o'r dorf, Peilat a Jiwdas yn cael eu holi ai nhw oedd yn gyfrifol am groeshoeliad Crist. Ond yna, atgoffwyd cynulleidfa'r capel, bod Iesu eisoes yn gwybod beth oedd i ddod, a bod y croeshoeliad yn rhan o gynllun ehangach Duw. Yn wir roedd aberth Iesu yn ymwneud â chariad, maddeuant a chyflawni ewyllys Duw. Wedi hyn, braf oedd gweld aelodau ifanc y capel yn dychwelyd o'r colegau gan barhau i gyflwyno neges yr Wythnos Fawr. Ar ddiwedd y gwasanaeth cyflwynwyd wyau Pasg a chroesau palmwydd i blant yr ysgol Sul.

**Heledd Clarke**

## TEYRNGED LLYWYDD YR UNDEB I'R PAB FFRANSIS



Fel un a dreuliodd gyfnod yn ne America pan oedd yn bennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru, mae'r Parchg Jeff Williams, Llywydd Undeb yr Annibynwyr, yn gyfarwydd â'r rhan o'r byd lle bu'r diweddar Bab Ffransis yn gwasanaethu cyn cael ei ddyrchafu'n bennaeth yr Eglwys Gatholig.

'Yr hyn a'm tarodd i amdano oedd ei wyleidd-dra a'i gariad tuag at ddynoliaeth,' meddai Jeff. 'Fe wnaeth ei orau glas hefyd i geisio diwygio'r Eglwys Gatholig, er mor anodd oedd hynny. Er na symudwyd ymlaen i ordeinio merched yn ddiaconiaid, heb sôn am fod yn offeiriaid, fe wnaeth y Pab Ffransis benodi merch yn Ysgrifennydd Cyffredinol Llywodraethiaeth Dinas-wladwriaeth y Fatican. Y Chwaer Raffaella Petrini yw'r ferch gyntaf erioed yn hanes yr Eglwys Gatholig i ddal y swydd uchel hon.

'Cafodd ei frawdgarwch ei adlewyrchu gan y ffaith iddo ffonio'r Eglwys Gatholig fechan yn Gaza bob nos am wyth o'r gloch ers blwyddyn a hanner i holi sut oedd pethau. Roedd nifer o Balestiniaid, yn ogystal â Christnogion, yn llochesu yno, a bu'n siarad gyda rhai ohonynt hwy hefyd. Yng nghanol yr uffern yna, roedd y galwadau ffôn gan y Pab yn dangos nad oedd Gaza wedi cael ei hanghofio.

'Er mai dim ond ychydig gannoedd allan o'i braidd o 1.4 biliwn o bobl oedd Gatholigion Gaza, roedd y ffaith iddo gadw mewn cyswllt personol â nhw yng nghanol ei waeledd i fyny hyd at y noson cyn iddo farw yn dweud cymaint am gymeriad y Pab Ffransis.'

# TRAFODAETH AM 'IAITH Y NEFOEDD'

**Yn dilyn erthygl gan Alun Tudur yn *Y Tyst* am iaith addoli, cafwyd dau ymateb – hyd yn hyn. Mae'r cyntaf gan weinidog eglwys Annibynnol sy'n addoli yn y ddwy iaith, a'r llall gan gyn feddyg teulu sy'n addoli mewn eglwys Annibynnol Gymraeg ac un Pentecostaidd Saesneg ei hiaith.**



*Y PARCHEDIG RHYS LOCKE oedd gweinidog cyntaf Saron, Creunant ers 65 mlynedd pan gafodd ei ordeinio a'i sefydlu yno yn 2019 ar ôl pum mlynedd o hyfforddiant gan Goleg yr Annibynwyr Cymraeg. O dan ei weinidogaeth, mae'r eglwys ddwyieithog hon yn Nyffryn Dulais yn fywiog ac yn tyfu. Mae Rhys hefyd yn gyfrannwr cyson i'r* Tyst.

Wrth ymateb i'r erthygl gan Alun Tudur, hoffwn fynegi fy mharch llwyr tuag ato fel ffrind a Christion. Mae'n galonogol gweld trafodaeth ynghylch iaith mewn addoliad, gan fod hwn yn bwnc sy'n berthnasol i gymunedau Cymraeg ac ail-iaith.

I mi, fel Cristion, nid yw iaith yr addoliad yn bwysicach na'r ffydd ei hun. Wrth addoli, y peth pwysicaf yw ein perthynas â Duw, nid pa iaith yr ydym yn ei defnyddio i fynegi ein hymroddiad.

Mewn cymdeithas amlieithog fel ein cymdeithas ni heddiw, mae'n hanfodol bod eglwysi'n croesawu ac yn cynnal amrywiaeth ieithyddol fel ffordd o gryfhau'r gymuned Gristnogol.

### Eglwysi dwyieithog

Nid yw Cristnogion yn byw mewn gwagle—rydym yn rhan o'n cymunedau lleol, a gall hynny olygu byw trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Credaf mai dyma allwedd llwyddiant i symudiad newydd Cristnogol—eglwysi sy'n caniatáu i'w cynulleidfaoedd addoli yn yr iaith o'u dewis.Yn fy eglwys yn y Creunant, Saron, rydym yn arddangos Gweddi'r Arglwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg fel bod pawb yn gallu addoli yn yr iaith sy'n fwyaf ystyrlon iddynt. Rydym yn croesawu gweddïau yn y ddwy iaith. Dyma'r ffordd ymlaen—nid trwy rannu pobl yn ôl iaith, ond trwy eu dwyn ynghyd mewn eglwysi a chapeli dwyieithog.

### Y Gymraeg yn rwystr?

Mae eglwysi Cymraeg yn rhan annatod o'n hanes a'n diwylliant, ond credaf y gall capel Cymraeg-uniaith fod yn rhwystr i rai yn y cymoedd. Os bydd eglwysi'n mynnu mai Cymraeg yw'r unig iaith ar gyfer addoli, mae perygl y byddant yn colli aelodau ac yn cau os nad ydynt yn ystyried y tirwedd ieithyddol. Felly, a ydym yn rhoi'r iaith yn gyntaf, neu Grist? Fy nymuniad yw gweld eglwysi'n ffynnu trwy feithrin undod o fewn y gynulleidfa, fel y gall pob Cristion deimlo'n gartrefol, beth bynnag fo'u dewis iaith.

Diolch am y cyfle i rannu fy mhersbectif ar y mater hwn – rwy'n gwerthfawrogi'r drafodaeth, a gobeithio y bydd yn agor y ffordd i eglwysi heddiw greu lle i bawb!

*Mae **DR WAYNE GRIFFITHS** yn feddyg teulu sydd wedi ymddeol. Bu'n weithgar iawn mewn sawl mudiad elusennol a chymdeithasol, ac yn gyn-gyfarwyddwr Mentrau Gwasanaethau Iaith Cwm Gwendraeth. Mae'n addoli yn eglwys Annibynnol Seion, Drefach yn ogystal ag eglwys Bentecostaidd Saesneg.*




I lawer, gall y syniad o berthyn i ddwy eglwys ymddangos yn anarferol, hyd yn oed yn gwrth-ddweud ei gilydd. Ac eto, mae fy mhrofiad wedi dangos i mi nad yw addoliad yn ymwneud â'r iaith a siaredir nac â'r arddull o wasanaeth ond yn hytrach â chysylltiad y galon â Duw. Cefais fy ngeni i deulu Cymraeg ei iaith, mynychais ysgol Gymraeg, a threuliais fy mywyd proffesiynol fel meddyg teulu lleol yn gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar yr un pryd, arweiniodd fy nhaith ysbrydol fi i addoli yn fy nghapel Annibynnol Cymraeg ac mewn eglwys.

### Teithiau o anobaith i ffydd

Am 30 mlynedd, roeddwn yn ymwneud â Teen Challenge, elusen Gristnogol ar gyfer y rhai hynny sydd â dibyniaeth ar gyffuriau sy'n ymroddedig i drawsnewid bywydau. Aeth llawer o raddedigion y rhaglen ymlaen i astudio yn Ysgol Weinidogaeth yr elusen, a daeth rhai hyd yn oed yn weinidogion yn yr eglwys Bentecostaidd. Roedd gweld eu teithiau o anobaith i ffydd yn deimladwy dros ben. Pan sefydlodd aelodau sylfaen Teen Challenge Eglwys y Bobl yn gyntaf mewn hen sinema, yna mewn uned ddiwydiannol, ac yn olaf mewn eglwys bwrpasol y deuthum yn aelod gweithgar, hyd yn oed wrth imi barhau i fod yn ymroddedig i fy nghapel Annibynnol Cymraeg.

### Addoli trwy gerddoriaeth

Mae cerddoriaeth wastad wedi bod yn elfen bwerus o fy addoliad, ac yn Eglwys y Bobl, cefais y fraint o chwarae drymiau ac offerynnau taro yn y band addoli. Yr hyn a wnaeth y profiad hwn hyd yn oed yn fwy arbennig oedd bod pob cerddor arall yn y band yn gyn-raddedig o'r Teen Challenge a oedd wedi dysgu chwarae eu hofferynnau tra'u bod nhw ar y rhaglen. Nid band yn unig oedd hwn; yr oedd yn brawf o brynedigaeth, ffydd, a thrawsnewidiad. Roedd addoli trwy gerddoriaeth mewn lleoliad Pentecostaidd Seisnig yn wahanol i wasanaethau mwy traddodiadol fy nghapel Cymraeg, ac eto roedd y ddau brofiad yr un mor ddwys ac yn ysbrydol gyfoethog.

Efallai y bydd rhai yn amau a yw'n bosibl perthyn i ddwy eglwys mewn gwirionedd, ond i mi, nid oedd erioed yn fater o ymraniad - roedd yn ehangu fy ffydd. Ar fore Sul, mynychais Gapel Seion, fy nghapel i Annibynwyr Cymraeg, wedi ymgolli yn nhreftadaeth gyfoethog a pharchedig fy ngwreiddiau ysbrydol. Gyda'r nos, ac unwaith y mis, roeddwn yn chwarae yn y band addoli lle'r oedd yr awyrgylch yn fywiog, llawn mynegiant, ac yn llawn egni.

### Ffydd tu hwnt i ffiniau iaith

Dysgodd y profiadau hyn wers werthfawr i mi: nid yw addoliad yn gyfyngedig i un iaith, enwad, nac arddull. Mae hanfod ffydd yn mynd y tu hwnt i'r ffiniau hyn, gan uno credinwyr trwy gariad at Dduw. Dangosodd fy amser yn y ddwy eglwys i mi fod amrywiaeth mewn addoliad nid yn unig yn dderbyniol ond yn cyfoethogi'n fawr. Canfûm fod Duw yr un mor bresennol ym mhob lleoliad, yn symud yng nghalonnau Ei bobl mewn gwahanol ffyrdd.

### Undod mewn ffydd

Mewn byd lle mae rhaniadau'n rhy aml yn ein diffinio, mae fy nhaith wedi bod yn dyst i harddwch undod mewn ffydd. Dim ond dyfnhau fy mherthynas â Duw y mae addoli yn y Gymraeg a'r Saesneg, mewn lleoliad traddodiadol a chyfoes. Yr wyf yn sefyll fel tyst i'r gwirionedd nad yw Duw wedi ei gyfyngu i un ffordd o addoli – y mae yn ein cyfarfod lle yr ydym, ym mha iaith bynnag a lefarwn, ac ym mha fodd bynnag y dewiswn ei foli.

**Beth yw eich barn a'ch profiad chi? Anfonwch air at *Y Tyst*. Manylion cyswllt ar y dudalen gefn.**

Yr Adran Gydenwadol

MAI 1 2025 RHIF 218

# Tafod Arian – Lleuwen Steffan

Yn dilyn ei thaith, 'Emynau Coll y Werin', y llynedd pan gyflwynodd nifer o emynau anghofiedig mewn capeli ledled Cymru, cafodd Lleuwen Steffan ei hysbrydoli i ychwanegu caneuon a cherddoriaeth wreiddiol, newydd at y gwaith. Y canlyniad yw ei bod wedi creu cynhyrchiad amlhaenog sy'n cyfuno ffilm, band a rhaglen o gerddoriaeth mewn cynhyrchiad newydd swmpus.

Yn ymuno â Lleuwen bydd y cerddor amryddawn Gethin Elis, sy'n chwarae nifer o offerynnau cerdd, yn ogystal â'r gantores ddihafal o Lydaw, Nolwenn Korbell. Yn ystod y perfformiad bydd ffilm newydd gan Aled Victor yn cael ei dangos, yn cynnwys delweddau o'r archif a roddwyd i Lleuwen, gan aelodau o'r cyhoedd yn bennaf, yn ystod ei thaith o amgylch y capeli. Bydd ei chaneuon gwreiddiol sy'n ymdrin â'i thaith ffydd yn cael eu perfformio am y tro cyntaf, a'r cynhyrchiad hwn yn rhoi bywyd newydd i emynau llafar gwlad a gafodd eu hanwylo gan y genedl.

Gallwch archebu tocynnau ar: Lleuwen.net/tafod-arian

I gael blas o'i gwaith, ewch i https://www.youtube.com/watch?v=PFAPrk1FxqM

(Dylid nodi mai fersiwn byr o'r cynhyrchiad fydd yn cael ei berfformio yn Tafwyl, a hynny heb y ffilm)






**Podlediad y Pasg: Lleuwen Steffan a Nan Powell-Davies**


Yn rhifyn y Pasg o'r podlediad Presbyteraidd cawn glywed gan y gantores a'r gyfansoddwraig Lleuwen Steffan. Mae Lleuwen yn sôn am ei gwaith, ei hysbrydoliaeth a'i hymweliad diweddar â Mizoram yng Ngogledd-ddwyrain India. Mae'r cyfweliad hwn yn uniaith Gymraeg.

Yna, yn dilyn hynny, ceir epilog dwyieithog gan y Parchedig Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, sydd newydd gwblhau'r marathon She Ultra ym Mhen Llŷn. Rhedodd Nan y ras galed hon, 50 cilometr o hyd, mewn ychydig dros 11 awr i godi arian er budd Apêl Manipur EBC: https://www.ebcpcw.cymru/cy/manipurappeal/

I wrando ar y podlediad, ewch i: https://rss.com/podcasts/podlediad-presbyteraidd-presbyterian-podcast/1991204/

# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 10: Gwleidyddiaeth**

**Llyfr y Pregethwr** 4:13–16

**Bachgen a brenin**

Yma, mae'r awdur yn troi ei feddwl at wleidyddiaeth, gan adrodd stori sy'n dweud pam mae'n credu bod llanc ifanc tlawd a doeth wrth y llyw yn rhagori ar frenin hen a ffôl (4:13–16).

'Yr hen a ŵyr a'r ifanc a dybia', medd yr hen air. 'Na', meddai'r Pregethwr. Yn ei farn ef, nid yw statws ac oedran ohonynt eu hunain yn golygu fod neb yn ddoeth. Mae awdur Llyfr Job yn cytuno ag ef yn hyn o beth. Wedi gwrando ar dri o gyfeillion Job yn ceisio'i ddarbwyllo i gydnabod ei bechod ac edifarhau, mae Elihu, er ei fod yn iau o lawer na'i gyfoedion, yn eu beirniadu'n llym am dybio bod yr ateb cywir i bopeth ganddynt: 'Nid yr oedrannus yn unig sydd ddoeth, ac nid yr hen yn unig sy'n deall beth sydd iawn' (Job 32:9).

Dywed Iesu rywbeth tebyg wrth gyfiawnhau anwybyddu 'traddodiad yr hynafiaid', sef dysgeidiaeth y Phariseaid. Bron yn ddieithriad, cyfeiria'r efengylwyr at yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid fel awdurdodau crefyddol cydnabyddedig y cyfnod, ac nid fel carfan ddibwys o eithafwyr rhagrithiol sydd ar yr ymylon. Ond er iddo gydnabod eu bod 'yn eistedd yng nghadair Moses' (Mathew 23:2) ac felly'n haeddu parch, roedd Iesu'n anghytuno â hwy ynghylch rhai materion llosg, yn cynnwys deddfau defodol manwl megis cadwraeth y Saboth, golchi dwylo a bwydydd arbennig. Mae'n eu cyhuddo o ragrith am 'ddirmygu gair Duw' er mwyn eu traddodiad (Mathew 15:1–9), ac yn eu barnu am fod eu dehongliad o'r Gyfraith yn rhoi 'beichiau trymion ac anodd eu dwyn' ar ysgwyddau pobl (Mathew 23:4). Dylent wybod yn well.

Er mwyn dangos nad monopoli'r henoed a'r grymus a'r goludog yw doethineb, mae'r Pregethwr yn cymharu cymwysterau bachgen ifanc tlawd, ond doeth, i fod yn arweinydd â chyflawniadau brenin goludog, oedrannus a ffôl. Ffolineb y brenin yw ei fod yn gwrthod gwrando ar gyngor. Yn ei sefyllfa fregus, gallai 'un ddod allan o garchar' hyd yn oed a chipio'r orsedd oddi arno (Pregethwr 4:13–14). Mae parodrwydd i wrando ar eraill yn un o nodweddion doethineb; ac yn ôl Llyfr y Diarhebion y mae'n sicrhau llwyddiant hefyd: 'Drysir cynlluniau pan nad oes ymgynghori, ond daw llwyddiant pan geir llawer o gynghorwyr' (Diarhebion 15:22).

Ar ddechrau ei deyrnasiad, er ei fod yn dlawd a dibrofiad, mae'r gefnogaeth a gaiff y bachgen gan bawb 'oedd yn byw ac yn rhodio dan yr haul' (Pregethwr 4:15), yn gwireddu'r ddihareb: 'Yn amlder pobl y mae anrhydedd brenin; ond heb bobl, dinistrir llywodraethwr' (Diarhebion 14:28). Ond daw agwedd besimistaidd yr awdur i'r brig unwaith eto. Er gwaethaf y fath gefnogaeth ysgubol, mae'r brenin newydd yn dioddef tynged yr hen frenin ac yn colli cefnogaeth: nid o angenrheidrwydd o achos ei ffaeleddau ond am fod ei ddeiliaid wedi blino arno ac yn dymuno newid. Nid yw'r clod a'r parch a'r bri sy'n seiliedig ar gymeradwyaeth boblogaidd yn para'n hir. Byrhoedlog fydd y llwyddiant cynnar; mae unrhyw obaith o barhau 'yn wagedd ac yn ymlid gwynt' (Pregethwr 4:16). Nid oes y fath beth â sefydlogrwydd mewn gwleidyddiaeth.

Daw tair enghraifft Feiblaidd i'r cof o'r hyn sydd gan y Pregethwr dan sylw. Roedd Solomon yn enwog am ei ddoethineb, ond cafodd ei farnu yn ei henaint am iddo fod yn anffyddlon i'r cyfamod a wnaed ar Sinai drwy osod llafur gorfod ar y bobl a dilyn duwiau estron (gw. 1 Brenhinoedd 9:20–21;11:1–13). Yn fuan wedi iddo farw, aeth y frenhiniaeth ar chwâl am fod ei fab Rehoboam wedi gwrthod â gwrando ar yr henuriaid yn ei lys a erfyniai arno i 'ysgafnhau peth ar gaethiwed caled' ei dad a'r 'iau drom a osododd' arnynt' (1 Brenhinoedd 12:4). Mae'r cyfeiriad at garcharor sy'n mynd o garpiau i gyfoeth yn ein hatgoffa am Joseff yn cael ei ryddhau o'i gadwyni: yn ddyn ifanc, cafodd ei benodi'n rheolwr yr Aifft am iddo brofi ei ddoethineb i Pharo (gw. Genesis 37–41).

Ond, boed y Pregethwr yn meddwl am gymeriadau arbennig ai peidio wrth ddweud y stori am y bachgen a'r brenin, mae ei sylwadau'n berthnasol iawn ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Rydym yn byw mewn byd y mae arweinwyr oedrannus, ynfyd a pheryglus yn gwneud bywyd yn faich i'w deiliaid ynddo. Mae arweinyddiaeth llawer gwlad yn nwylo cadfridogion creulon, arlywyddion diegwyddor ac eithafwyr crefyddol digyfaddawd, a'r mwyafrif ohonynt wedi cyrraedd oed yr addewid. Un nodwedd sy'n gyffredin i bob un ohonynt yw'r defnydd a wnânt o rym i ffrwyno unrhyw wrthsafiad i'w hawdurdod. Mygir pob protest â dwrn dur. Y camddefnydd o rym gwleidyddol sydd wrth wraidd y protestiadau a'r gwrthryfel sy'n arwain at argyfwng mewn llawer gwlad.

Mae'r bwlch oedran rhwng llywodraeth sy'n heneiddio a phoblogaeth ifanc yn gwneud deialog yn anodd ac yn creu tensiwn rhwng gofynion y naill a gobeithion y llall. Llugoer yw ymateb sawl gwlad i alwad y to ifanc am fyd mwy diogel ar eu cyfer hwy a'u plant drwy roi'r sylw dyladwy i'r amgylchedd cyn ei bod yn rhy hwyr. Yn y gyflafan fwyaf yn Ewrop ers yr Ail Ryfel Byd, anfonwyd nifer fawr o fechgyn ifanc Rwsia, yn groes i'w hewyllys, i ymladd yn erbyn eu cymdogion yn Wcráin, gyda'r gorchymyn i ladd pawb yn ddiwahân. Nid oedd dewis ond mynd, er eu bod yn brin o'r cyfarpar angenrheidiol a heb gael fawr o hyfforddiant. Yn Iran, mentrodd merched ysgol anufuddhau i orchmynion yr awdurdodau ynglŷn â beth i'w wisgo a beth i'w wneud. Fel y gellid disgwyl, yn lle gwrando a thrafod, ymateb yr henuriaid sy'n rhedeg y wlad yn enw Duw oedd curo, poenydio a charcharu'r protestwyr, a hyd yn oed saethu nifer yn farw.

Yn ôl un cyfrif, mae ymron ddau biliwn o bobl ifanc rhwng 10 a 22 oed yn y byd. Os yw dynoliaeth am oroesi, mae deialog rhwng y cenedlaethau'n hanfodol. Mae gan lawer o'n hieuenctid rywbeth o bwys i'w ddweud am y ffordd y dylid rhedeg y byd. Nid oes gan yr henoed fonopoli ar ddoethineb. Barn y Pregethwr yw mai gwell yw cael ein harwain gan rywun ifanc a doeth na chan deyrn hen a ffôl sy'n gwrthod derbyn cyngor ei lys ei hun.

**Be' dych chi'n feddwl?**

1. Yn wyneb ymchwil ddiweddar sy'n dweud bod mwy o ddiddordeb gan bobl ifanc yn yr eglwys nag o'r blaen, beth feddyliwch y gallem fod yn ei wneud er mwyn eu croesawu i'n heglwysi Cymraeg?

2. A ddylid rhoi mwy o le i lais yr ifanc mewn trafodaethau ynghylch materion cymdeithasol a dyfodol y blaned?

# Gŵyl Llanw'n dod i oed yn Llangrannog



Cynulleidfa nos Lun yn gwrando ar Dr Owain Edwards



Emrys a Peter yn paratoi at yr ŵyl

Ar y dydd Llun wedi'r Pasg fe ddaeth y nifer mwyaf erioed o bobl at ei gilydd i ŵyl Llanw yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Roedd yr ŵyl hefyd yn dathlu dod i oed ers ei sefydlu, 18 mlynedd yn ôl.

Yn ystod pedwar diwrnod yr ŵyl hon sy'n dathlu'r atgyfodiad drwy gyfrwng y Gymraeg, fe fu yn agos at 500 o bobl yn rhan ohoni. Mae'r ŵyl wedi datblygu lawer iawn ers ei dechrau yn 2008 a'i chynnal yng ngwersyll Llangrannog, lle daeth 58 o bobl ynghyd. Bu mewn amryw o leoliadau dros y blynyddoedd, gan gynnwys Dinbych-y-pysgod, Cricieth ac Aberystwyth, ac yn rhithiol o Gaernarfon yn ystod y pandemig. Bu'n gyfrwng dros y blynyddoedd i ddod â Christnogion Cymraeg a'u cefnogwyr at ei gilydd i rwydweithio a chefnogi ac annog ei gilydd. Bu'n fodd hefyd i arddangos yr egni a'r ffresni sydd ar gael yn yr eglwys Gymraeg i bawb sydd â llygaid i weld a chalon i glywed.

Thema'r ŵyl eleni oedd 'Iesu'r Proffwyd, yr Offeiriad a'r Brenin'. Rhannodd y prif siaradwr Jonathan Thomas, Rhydaman, am wahanol swyddau Iesu yn ystod sesiynau'r bore, gan sylwi ar lawnder a hyfrydwch yr Arglwydd ar ein cyfer bob amser. Cafwyd oedfaon hwyliog a dwys gyda'r nos hefyd o dan arweiniad Owain Edwards, y Bala; Rachel Radbourne, Llangefni; Criw'r Ffynnon, Llandysul; a Jos Edwards, y Blaenau.

Roedd darpariaeth lawn ar gael ar gyfer gweithgareddau i blant ac ieunctid o bob oed a phob gallu, gyda chefnogaeth arbennig i deuluoedd a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhoddodd y seminarau gyfle i archwilio agweddau'r thema yn llawnach ar gyfer ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth yng Nghymru heddiw. Agwedd arbennig ar y gweithgareddau oedd y lle amlwg a roddwyd i bobl ifanc arwain a chyflwyno a sôn am eu dyheadau. Roedd nifer o fudiadau Cristnogol yn arddangos yno ac yn rhannu am eu gwaith. Hefyd, roedd criw Ffald y Brenin ar gael i weddïo gyda nhw, ac yn gweddïo drwy a thros y gweithgareddau i gyd. Roedd y sgyrsiau a'r dal i fyny a chyfarfod ffrindiau newydd yn galondid. Roedd yr addoliad a'r gweddïo yn felys, ac roedd y rhannu o'r Gair yn berthnasol eto ac yn llawn calondid i bawb a drodd yn ôl i'w cartrefi eu hunain ledled Cymru ac ymhellach wedi'r ŵyl.

Rhwng pob dim, fe gafwyd ymdrech wirfoddol arwrol eto eleni gan dîm ymroddedig o ymddiriedolwyr a chefnogwyr i wneud yr ŵyl yn un llawn llawenydd a gorfoledd y Pasg. Dymunwn bopeth gorau i'r trefnwyr wrth iddyn nhw hyrwyddo datblygiad a chenhadaeth yr ŵyl dros y blynyddoedd nesaf.

Gobeithir cynnwys rhai argraffiadau a phytiau o'r ŵyl yn *Cenn@d* yn ystod yr wythnosau nesaf.

*HP-D* (gol.)



Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

**S4C** *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 4 Mai**
Bydd Nia Roberts yn Aberhonddu i ddysgu mwy am etifeddiaeth grefyddol gyfoethog y fro. Cawn ymweld â Chadeirlan Anglicanaidd y dref, a chawn glywed hanes hen gapel Cymraeg y Plough, a adeiladwyd bron i ddwy ganrif yn ôl. A chawn wledd o ganu mawl o bob cwr o Gymru.

**BBC radio cymru** *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 4 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Eich dewis chi o emynau yng nghwmni Arfon Haines Davies

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 4 Mai, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Ariadne der Hof, Llundain

# EGLWYS PENIEL YN LLUNIO 'FFORDD YMLAEN 2025'

Yn dilyn cyfarfod llwyddiannus y llynedd i drafod 'Y Ffordd Ymlaen', penderfynwyd bryd hynny ein bod yn cynnal cyfarfod tebyg yn flynyddol. Felly, gwahoddwyd ni'n aelodau a chyfeillion yr achos i'r festri ar brynhawn Sul, 19 Ionawr 2025. Llywydd y cyfarfod oedd Mr Huw Jones, cadeirydd pwyllgor y diaconiaid.



### Cyflwyniad

Yn dilyn gair o groeso a gweddi ganddo, gwahoddwyd Tom Evans i arwain y drafodaeth. Yn gyntaf, rhannodd ef bwyntiau o'r hyn y dylwn fod yn wyliadwrus ohonynt wrth wneud unrhyw newidiadau, gan gynnwys na ellir anwybyddu bywyd ysbrydol yr eglwys na symud ymlaen os nad oes cefnogaeth, ymroddiad ac ymrwymiad i newid. Edrychwyd ar y rhestr ysbrydoledig a gyflawnwyd llynedd cyn i ni fynd ati i feddwl am bosibiliadau ar gyfer 2025/26.



### Trafodaeth

Yna, mewn grwpiau, trafodwyd y cwestiynau a baratowyd. Cafwyd trafodaeth iach, onest a chalonogol wrth ddelio, yn gyntaf, ar sut i gryfhau'r capel ac ymestyn allan i'r gymuned o'n hamgylch. Awgrymwyd nifer o syniadau diddorol gan gynnwys nosweithiau ffilm, boreau coffi i bobl ag Alzheimers, grwpiau cerdded a hyd yn oed Men's Sheds.

Trafodwyd hefyd os oedd cadw pethau fel ag y maent yn fwy peryglus na mentro ar hyd llwybr dieithr, newydd. Er i ambell un ddweud nad oedden nhw'n or-hoff o unrhyw newid, roedd pawb yn hapus iawn gyda'r newidiadau a fu'r flwyddyn cynt. Yna, yn olaf, cafwyd y dasg o lunio datganiad ar gyfer eglwys Peniel. Unfrydol oeddem i gynnwys y gair 'bywiog' ynddo.

Diolchodd Huw i bawb am fynychu ac am eu cyfraniad, i'r pwyllgor bach sydd wedi bod ynghlwm â'r oedfaon ac i'r rhai hynny sydd wedi bod mor barod i gymryd rhan ynddynt. Rhannodd Huw'r newyddion ein bod yn cael wi-fi i'r festri a bod teledu sgrin lydan i'w archebu cyn hir. Cafwyd grant o £2,000 gan Ymddiriedolaeth Syr David James Pantyfedwen, i gwrdd â chanran dda o'r gost.

Cofiwch, mae'r cyfarfod hwn yn flynyddol, felly, os fethoch chi'r cyfarfod eleni, beth amdani yn 2026? Braf yw cael yr amser i drafod yn agored 'Y Ffordd Ymlaen'.

### DATGANIAD EGLWYS YR ANNIBYNWYR PENIEL

Mae Eglwys Annibynnol Peniel yn fywiog ac yn ceisio cynnal a hyrwyddo'r ffydd Gristnogol ym Mheniel a'r fro. Derbyniwn ein bod ar daith ysbrydol gyda'n gilydd, gan gredu bod y daith honno wedi'i seilio ar gariad Duw, gras Iesu Grist a Chymdeithas yr Ysbryd. Gwnawn ein gorau fel Eglwys i werthfawrogi a rhyddhau doniau pawb yn ein plith. Gyda chymorth neges Iesu, ceisiwn herio anghyfiawnder yn yr ardal, y genedl a'r byd.

## Tros genhedloedd byd
## Diarhebion 7: 2 a 3

Cadw fy ngorchmynion, iti gael byw, a boed fy nghyfarwyddyd fel cannwyll dy lygad. Rhwym hwy am dy fysedd, ysgrifenna hwy ar lech dy galon.

Tros genhedloedd byd yn gyfan,
down yn unfryd ger dy fron;
fel y gallwn rannu'n gyfiawn
holl drysorau'r ddaear hon.
Boed ein cariad ymarferol
Fyth yn ffyddiog ac yn llon.

Arwain ninnau i'r dyfodol,
tyn ein byd i lwyr ryddhad,
o hualau trais a gormes
dwyn dy bobol Nefol Dad.
Dangos inni'r llwybr graslon
ddaw â gobaith a llesâd.

Popeth sydd yn difa bywyd,
gwared hwy o gyrrau'n tir;
balchder safle, hil neu gyfoeth,
dogma sy'n tanseilio'r gwir.
Yn ein gweddi am gyfiawnder
gwna ein lleisiau oll yn glir.

Ti, Greawdwr, ysgrifennaist
d'enw mawr ar ddynol-ryw;
gad in dyfu'n ymdebycach
i Grist Iesu yn ein byw;
cymer Di ein holl wasanaeth
er dy glod, O Arglwydd Dduw.

**Sian Meinir**

## The Congregational Fund Board

Mae'r elusen hon yn dyddio'n ôl i 1695. Roedd yr emynydd Isaac Watts yn gadeirydd cynnar ar yr ymddiriedolwyr. Prif nod yr elusen yw cefnogi gweinidogion yn y traddodiad cynulleidfaol nad ydynt bellach yn gallu gweinidogaethu oherwydd oedran neu wendid, ynghyd â chynorthwyo gweinidogion a myfyrwyr gweinidogaeth y Gair a'r Sacrament sy'n wynebu problemau ariannol annisgwyl.

Mae grantiau astudio blynyddol hefyd ar gael ar gyfer myfyrwyr gweinidogaeth y Gair a'r Sacrament yn ystod cyfnod eu hyfforddiant a gweinidogion sy'n ymgymryd ag astudiaethau pellach ar lefelau gradd uwch.

Y mae'r elusen yn noddi gweinidogion yng Nghymru a Lloegr. Os hoffech gael rhagor o fanylion neu ffurflen gais cysylltwch gyda'r Parchg Ian Jones, 52 Orchard Close, Norwich NR7 9NZ. E-bost: revianjones@hotmail.com

# Golygyddol

## PREGETHU

### Mynd yn bregethwr

Flynyddoedd yn ôl y dywediad am rywun fyddai'n 'mynd yn weinidog' fyddai 'mynd yn bregethwr,' ac mi roedd hi'n ffasiynol i ddweud hynny, er enghraifft, yng Ngwlad y Medra - Sir Fôn. Wrth gwrs, fe gododd y sir honno do o bregethwyr amlwg iawn, fel sawl sir a gwlad arall. Yng nghwrs amser, newidiodd y pwyslais i 'weinidogaethu' yn yr ystyr letach o lawer - a da hynny.

Ond fedra i ddim bod yn onest â mi fy hun heb ddweud bod angen pregethu o hyd, oherwydd fel y mae Duw wedi 'cyfathrebu' â ni yn dod atom yn Iesu Grist, mae gennym ninnau'r dasg o hyd o gyfathrebu'r Newyddion Da â'n cenhedlaeth heddiw, a fi fyddai'r cyntaf i gydnabod bod yna wahanol ddulliau o gyhoeddi'r Newyddion. Y 'kerygma' yn yr iaith Roeg sy'n rhoi i ni'r gair 'datganiad' neu 'cyhoeddiad' yn Gymraeg, a dyna'n braint ni - dweud am yr hyn y mae Duw wedi'i wneud yn Iesu Grist. Ac wrth gwrs yr adnod sy'n sail i hynny ydi: '... gwelodd Duw yn dda trwy ffolineb yr hyn yr ydym ni yn ei bregethu, achub y rhai sydd yn credu.' A'r groes yn sail i'r cyfan. Darllener yr ail ran o'r bennod gyntaf yn Llythyr Cyntaf Paul at y Corinthiaid, a hefyd yr ail bennod o'r un llythyr.

### Llyfr!

Ro'n i'n digwydd edrych ar hen lyfr yn y tŷ yma y diwrnod o'r blaen - llyfr y ces i flas ar ei ddarllen rhai blynyddoedd yn ôl. Teitl y llyfr ydi *Preaching ... The Preacher and Preaching in the Twentieth Century* gan Samuel T. Logan oedd yn Athro Hanes yr Eglwys yng Ngholeg Diwinyddol Westminster yn Philadelphia, a hefyd yn weinidog ordeiniedig. Mae'n gyfrol swmpus, a gyhoeddwyd yn 1986, ac y mae hi'n manylu ar bob math o agweddau pregethu, a gwahanol rai yn cyfrannu i'r erthyglau.

Y mae'r bennod gyntaf yn gosod sail dda i'n dealltwriaeth ni o 'bregethu' a 'phregethwr,' ac yn elfennau y dylem i gyd edrych arnyn nhw - yn bregethwyr a chynulleidfaoedd, ac y mae'r bennod wedi'i rhannu'n bedair rhan gan wahanol ysgolheigion, a chyfeiriaf yn fras at y pedair rhan:

### Galwad y gweinidog

Joel Nederhood sy'n trafod y trywydd hwn. Tanlinella Nederhood yr amrywiaeth o ffyrdd y mae Duw'n galw pobl, ac y mae gwahanol enghreifftiau yn y Beibl o bobl yn cael eu galw i weinidogaethu mewn ffyrdd gwahanol. Hynny yw, nid profiad Paul yw profiad pawb, yn yr ystyr nad ar amrantiad y digwydd y galw - gall fod yn broses hir weithiau. Noda hefyd bod ffydd bersonol yn medru datblygu, hynny yw, peidio bod yn statig, wrth fyw'r alwad ar hyd y blynyddoedd wedyn. Wrth ddarllen geiriau Nederhood mae rhywun yn cael ei atgoffa o gyfrol Maurice Loader, *Y Gweinidog a'i Waith*, cyfrol seiliedig ar ei ddarlithoedd i fyfyrwyr Coleg Bala-Bangor yn 1982 fel rhan o ddarlithoedd coffa Michael D. Jones: 'Fydda i byth yn peidio â rhyfeddu bod Duw wedi galw (ac yn parhau i wneud hynny) y fath amrywiaeth ogoneddus o bersonau i fod yn weision ac yn weinidogion iddo.'

### Defosiwn y gweinidog

Erroll Hulse yw awdur yr adran hon, a'i bwyslais ar faint o amser mae gweinidog yn ei roi i ddefosiwn personol, oherwydd heb y defosiwn yma a'r ymdeimlad o ostyngeiddrwydd personol, gall y cyfan chwalu. Mae'n bur debyg y byddai Martin Luther yn neilltuo teirawr i ddefosiwn personol y dydd ac y byddai John Baillie, yn ôl Maurice Loader, yn treulio diwrnod cyfan yn ei ystafell ym mhen uchaf ei dŷ ac yno o wawr tan fachlud ar y diwrnod hwnnw. Gyda llaw, galwodd yr ystafell fyfyrio yn 'Aberdeen,' ac os byddai rhywun yn chwilio amdano ar y diwrnod penodol hwnnw byddai Mrs Baillie yn eu hateb: 'Na, dydi Dr Baille ddim ar gael heddiw, mae o i fyny yn Aberdeen!'

### Y gweinidog ac addysg

James Montgomery Boice yw'r awdur yma. 'Nid dawn na dysg, ond dwyfol nerth wna brydferth waith ar ddynion,' meddai Elfed. A gwir hynny bob gair. OND, dydi'r gweinidog, meddai Boice byth yn peidio â dysgu. Mae darllen a dysgu yn hanfodol i'w rôl fel gweinidog. Ond, fel y gŵyr pawb ohonom y dyddiau hyn, cael yr amser i ddarllen ydi'r peth anoddaf oherwydd gwahanol amgylchiadau.

### At y person cyfan

R. C. Sproul sy'n trafod hyn, ac yn ein hatgoffa am y fath amrywiaeth sydd yn ein cynulleidfaoedd, ac y dylem ddelio efo popeth sy'n blino ein cynulleidfaoedd ni. Dyma waith y bugail-weinidog/pregethwr wrth gwrs, a hefyd ein bod ni'n dangos bod Duw yng Nghrist wedi dod i'n plith at y person cyfan, yn ei holl anghenion. Rhaid dangos hefyd drwy ein gweinidogaeth bregethu ein bod ni fel gweinidogion a phregethwyr yn cydymdeimlo a'n cynulleidfaoedd am y rheswm syml ein bod ninnau wedi'n hamgylchynu â'r un anawsterau.

Nid Sproul sy'n dweud hyn ond fi fy hun – mae'n rhaid i ni fel gweinidogion a phregethwyr ddangos i'n cynulleidfaoedd ein bod ni ein hunain YN yr hyn yr ydym yn ei ddweud, a does dim pwynt pregethu pregethau pobl eraill i'n cynulleidfaoedd, er enghraifft, neu fe gollir rhywbeth gwirioneddol bwysig.

Diolch am gyfle eto i bori yn y gyfrol er mai dim ond y rhan gyntaf un a nodais yn y fan hyn. Ond rydw i'n credu bod yna le i'r math hon o gyfrol wrth i ni drafod (ac y mae angen gwneud hynny) pregethu a chyfathrebu heddiw.

**Iwan Llewelyn**




## Derbyn tri yng Nglynarthen



Newyddion da! Ar Sul Cymun y Pasg derbyniwyd tri o bobl ifanc yn gyflawn aelodau yng nghapel Glynarthen, Ceredigion. Mae'r tri yn or–wyron i'r diweddar Barchg a Mrs W. J. Evans, Nebo a Philadelphia gynt, ac yn nith a neiaint i'r diweddar Barchg O. J. Evans, Aberystwyth gynt. Dyma blant Mark ac Elen Mathias (Tŷ Capel Glynarthen a'r Glog, Hermon gynt) sef Owen, Mererid a Tudur Mathias. Cafodd y tri eu magu yn y ffydd yn eglwys Glynarthen, gan fynychu'r ysgol Sul, eu bedyddio gan y Parchg Carys Ann a nawr eu derbyn yn gyflawn aelodau ganddi. Dyma'n sicr ddydd hanesyddol bwysig. Clod i Dduw!

**Carys Ann**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# CYFLWYNO SIÔN PAGE – DARPAR BREGETHWR NEWYDD

Mae Siôn Page yn byw ym mhentre Tre-lech gyda'i bartner a'u dau blentyn. Bu'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol ers 2017 ac ar hyn o bryd mae'n rheolwr peripatetig sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl ar draws Cymru. Yn ystod ei yrfa cafodd sawl gwobr yn cydnabod ei waith, gan gynnwys hyrwyddo gofal trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y maes pwysig yma. Cafodd ei gymeradwyo'n llawen ar gyfer mynd ymlaen â'i gwrs hyfforddiant fel pregethwr gan Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn eu Cwrdd Chwarter yn Elim, Ffynnon-ddrain. Bu'n rhoi ychydig o'i hanes i ohebydd *Y Tyst*.

### Beth yw rôl ffydd a chred yn dy fywyd?

Fel aelod o eglwys Ffynnonbedr ger Meidrim, mae fy ffydd yn rhan annatod o fy mywyd. Mae nid yn unig yn fy nghysylltu â'r gymuned ond hefyd yn sylfaen ar gyfer fy ngwerthoedd wrth fynd i'r afael â'm gwaith mewn sawl cartref gofal preswyl ledled Cymru. Mae fy mhrif ffocws ar gefnogi unigolion sydd â heriau iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Mae pob diwrnod yn cyflwyno ei heriau unigryw, ond rwy'n cael boddhad mawr wrth wneud gwahaniaeth ym mywydau pobl.



*Siôn Page gyda Jean Lewis, cadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin, a'r Parchg Beti-Wyn James*

### O ble ddaeth yr awydd i fynd ati i bregethu'r Efengyl?

Ar ôl astudio Addysg Grefyddol yn Ysgol Bro Myrddin a chwblhau Lefel A yn y pwnc, mae fy nhaith o ran ffydd a phregethu wedi bod yn rhan arwyddocaol o fy mywyd. Trwy gydol fy mhrofiadau, rydw i bob amser wedi teimlo galwad gref i bregethu Gair Duw. Mewn sgyrsiau â sawl gweinidog, gan gynnwys y Parchg Beti-Wyn James, rwyf wedi cael fy annog yn aml i gymryd y cam hwn ar ôl petruso am flynyddoedd lawer. Fe wnaeth heriau iechyd fy nghadw i ffwrdd o'r gwaith am sawl mis y llynedd. Yn ystod y cyfnod anodd hwnnw, myfyriais yn ddwfn ar fy mywyd a'm ffydd. Daeth yn amlwg i mi ei bod yn bryd i mi fynd ar drywydd fy ngalwad.

Cafodd fy nghred ym mhwysigrwydd ffydd yn ein bywydau ei atgyfnerthu gan y sylweddoliad yna. Fel y dywed Rhufeiniaid 10:17; 'O glywed y neges y daw ffydd, a thrwy air Crist y clywir y neges.' Mae'r adnod hon yn atgof dwys o rym pregethu. Mae Efengyl Iesu Grist yn neges o obaith i bawb. Trwy rannu'r Efengyl, rydym yn dyfnhau ein ffydd ein hunain a hefyd yn helpu eraill i ddarganfod gobaith a phwrpas. Dyna pam yr wyf wedi dewis cysegru fy ymdrechion i bregethu Gair Duw. Trwy'r daith hon, rwy'n anelu at gysylltu ag eraill, rhannu neges drawsnewidiol Iesu, a meithrin cymuned sydd wedi'i hadeiladu ar ffydd.

### Beth yw manteision cwrs hyfforddiant Undeb yr Annibynwyr?

Manteision dilyn y cwrs yw ei bod yn daith unigryw, un sydd wedi agor fy llygaid i dapestri cyfoethog ein crefydd a'u heffaith ar ein bywydau heddiw. Nid yw astudio a dilyn y cwrs a sefydlwyd gan yr Undeb yn ymwneud â dysgu testunau hynafol yn unig, mae'n ymwneud â deall datblygiad hanesyddol ein ffydd a sut maent yn siapio bywyd cyhoeddus a deinameg diwylliannol. Mae'r cwrs yn cynnig persbectif hynod ddiddorol ar y materion moesegol, diwylliannol, gwleidyddol ac athronyddol sy'n cydblethu â chrefydd. Yr hyn rwy'n ei garu fwyaf am y cwrs mae'n eich annog i feddwl yn feirniadol a myfyrio'n ddwfn ar gwestiynau mawr bywyd. Mae pob dosbarth fel pilio haen o ddealltwriaeth yn ôl, gan ddatgelu mewnwelediadau newydd i sut mae systemau cred gwahanol yn dylanwadu ar bopeth o wleidyddiaeth i foesoldeb personol. Hefyd, mae'n hynod foddhaus ymgysylltu â safbwyntiau amrywiol a chael trafodaethau sy'n herio fy marn fy hun. Nid dim ond un academaidd yw hon; mae'n bersonol ac yn drawsnewidiol. P'un a yw'n archwilio ysgrythurau hynafol neu ddehongliadau modern, rwy'n cael fy ysbrydoli'n gyson i ddysgu mwy.

### Sut fu'r ymateb hyd yn hyn, a beth yw dy obeithion am y dyfodol?

Mae'r ymateb dwi wedi ei gael hyd yma wrth ymweld â gwahanol gapeli wedi bod yn bositif dros ben a phawb wedi bod yn groesawgar iawn. Dwi'n dal i ddysgu a datblygu fy hun ac mae'n wych cael fy ngwahodd i wahanol lefydd i rannu'r Efengyl. Wrth edrych at y dyfodol rwy'n cymryd un diwrnod ar y tro. Mae'r cwrs rydw i'n ei ddilyn ar hyn o bryd, ac yn cael fy mentora gan Beti-Wyn a Guto Prys ap Gwynfor, yn caniatáu i mi archwilio beth yw'r alwad i mi, dwi'n credu. Mae'r dynfa i bregethu'r Efengyl yn gryf ac yn rhywbeth rydw i o'r blaen wedi ceisio ei anwybyddu. Ond hyderaf y bydd Duw, un dydd, yn arwain ac yn dangos i mi beth sydd ar y gweill ar fy nghyfer.

### A diddordebau amser sbâr – os oes yna?

Pan fyddaf yn dod o hyd i rai eiliadau prin o amser rhydd, rwyf wrth fy modd yn ymgolli mewn cerddoriaeth. Mae chwarae'r piano wedi bod rhywbeth yr wyf yn ei fwynhau'n angerddol erioed. Mae'n ffordd wych o ymlacio a mynegi fy hun yn greadigol. Ond mae'r bywyd yma hefyd wedi'i fwriadu ar gyfer teulu, ac rwy'n gwarchod yr amser rydyn ni'n eu rhannu gyda'n gilydd yn ofalus.



*Y gynulleidfa yn cymeradwyo Siôn - yn llythrennol!*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*